**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 20fed Hydref 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**56. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, P. Prendergast a T. Thomas.

**57. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 15fed Medi 2021 - Rhifau Cofnod 46-55

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 15fed Medi 2021 - Rhifau Cofnod 21-23

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir..*

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Hydref 2021 - Rhifau Cofnod 24-26

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 6ed Hydref 2021 - Rhifau Cofnod 38-47

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

**58. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer ar y rhestr o ddigwyddiadau (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) dros y mis diwethaf ac yn benodol at ei gwasanaeth sdnesig yn Eglwys y Santes Fair, yr oedd wedi cael adborth gwych arno, yn enwedig ar y Tad newydd, Anthony Nnamah a'r côr Ffilipino a'r derbyniad hyfryd yn Neuadd y Dref wedyn. Dywedodd y Dirprwy Faer bod lansiad Wicked Wales 'Reel Rhyl' yn y Theatr Fach wedi bod yn arddangosfa wych o dalentau hynod ac yn noson braf iawn.

## 59. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (29ain Medi – 13eg Hydref 2021)*

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1256 | Home Bargains | 33.08 | Masgiau wyneb a diheintydd dwylo ar gyfer y Sul Dinesig |
| 1257 | B&M | 28.00 | Papur i lungopïwr y swyddfa |
| 1258 | Gunsmoke Communications | 750.00 | Dylunio 'Rhodio'r Rhyl' |
| 1259 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,625.00 | Ffi reoli ar gyfer Ch3 2021/22 (Hyd-Rhag 2021) |
| 1260 | Garnett-Hughes Solicitors | 50.00 | Swm adneuol am waith i drosglwyddo Canolfan Gymunedol Tynewydd |
| 1261 | Design to Print | 168.00 | Taflenni A5 |
| 1262 | Design to Print | 36.00 | Posteri A4 |
| 1263 | Design to Print | 57.60 | Gwaith celf – arwyddlun y Rhyl |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£3,747.68** | |

Ni wnaed unrhyw daliadau brys yn y cyfnod. Gwnaed tri taliad bach gyda cherdyn (1256, 1257 a 1260).

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

## 60. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI – CHWARTER 2 2021/22

Ymhellach i gofnod rhif 39 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Gorffennaf 2021, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu'r cyfarfod o incwm buddsoddi

bychan o £80.25 i gyd o 5 cyfrif buddsoddi'r Cyngor Tref, oherwydd cyfraddau llog isel parhaus.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**61. YMGYNGHORIAD: FFERM WYNT AWEL Y MOR**

Adroddodd Clerc y Dref bod ymateb wedi ei anfon yn nodi colled bosibl y clwb golff, yr effaith ar amddiffynfeydd morol presennol a rhai arfaethedig, a'r buddsoddiad gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru yn yr amddifynfeydd hynny a gofyn yn gofyn am ystyried cronfa mangteisoin cymunedol.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr wybodaeth.*

**62. YMGYNGHORIAD: COMISIWN FFINIAU CYMRU – AROLWG 2023 O ETHOLAETHAU SENEDDDOL**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Hydref 2021, cyflwynodd Clerc y Dref ymateb drafft (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r ymateb.*

**63. YMGYNGHORIAD: PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL ANNIBYNNOL CYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2021/22**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn cynnwys awgrymiadau ac argymhellion o'r newidiadau arfaethedig yn lwfansau'r Aelodau, fel a ganlyn:

| Newid | Sylw Clerc y Dref/effaith ar y Cyngor Tref |
|---|---|
| Bydd y rheoliadau newydd yn dod i rym ar 9fed Mai 2022 yn hytrach na'r 1af Ebrill 2022. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-daro gyda chylch etholiadol cynghorau tref a chymuned. | Cytuno ac awgrymu bod cyhoeddiad blynyddol yr atodlen o lwfansau a delir i'r aelodau hefyd yn cadel ei newid i ddangos lwfansau a delir yn y flwyddyn ddinesig yn hytrach na'r flwyddyn ariannol er mwyn esbonio'n gliriach a'i wneud y haws ei ddeall. |
| Mae'r Panel hefyd wedi adolygu grwpio'r cynghorau yn bum grŵp yn hytrach na thri. | Dylai'r Cyngor nodi'r newid arfaethedig. Mae'r Cyngor Tref yn aros o fewn grŵp un. |
| Cynghorau tref a chymuned i gyhoeddi manylion holl daliadau a wneir i aelodau mewn datganiad o daliadau blynhyddol ar gyfer pb blwyddyn ariannol,. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth ar hysbysfyrddau'r cyngor a/neu wefannau a'u rhoi i'r Panel erbyn 30ain Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. | Dim newid i'r Cyngor Tref.<br>Argymell bod y cyngor yn gwneud sylwadau y dylai'r manylion a gyhoeddir yn cyfateb â'r flwyddyn ddinesig yn hytrach na'r flwyddyn ariannol. |

| Penderfyniadau | Sylw Clerc y Dref/effaith ar y Cyngor Tref |
|---|---|
| Rhif 44 | Dim newid i'r Cyngor Tref.<br>Aelodau i gydnabod y paragraff yn ymwneud â Chyllid y Wlad. |
| Rhif 45 | Dim newid i'r Cyngor Tref.<br>Argymell bod yr arfer bresennol i gymeradwyo rhai dyletswyddau ar gyfer y rhain y gall aelodau hawlio yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor yn cael ei hail-gadarnhau. |
| Rhif 46 | Dim newid i'r Cyngor Tref.<br>Byddai angen cymeradwyo aros dros nos ymlaen llaw gan y Cyngor ac mae angen ail-gadarnhau hyn. |
| Rhif 47 | Ymdengys bod gwrthdaro rhwng rhifau 46 a 51?<br>Argymell gofyn am esboniad a chymryd penderfyniad ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol. |
| Rhif 48 | Darpoariaeth newydd.<br>Dim cyfarwyddyd o ran pryd y byddai Lwfans Presenoldeb yn daladwy.<br>Argymell gwrthod ar gyfer 2022/23 ac adolygu y flwyddyn nesaf. |
| Rhifau 49 a 50 | Mae'r Cyngor Tref yn talu'r ddau lwfans yma ar hyn o bryd.<br>Cydnabod ychwanegiad y gair 'swyddogol' mewn perthynas â dillad.<br>Argymell gofyn am esboniad ar y pwynt hwn cyn cymryd unrhyw benderfyniad polisi. |
| Rhif 51 | Dim newid i'r Cyngor Tref.<br>Angen ail-gadarnhau'r polisi presennol. |
| Rhif 52 | Dim newid i'r Cyngor Tref. |

***PENDEFRFYNWYD*** *cymeradwyo'r holl argymhellion.*

**[Datganodd y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine fuddiant personol ym mhenderfyniadau 49, 50 a 51 oherwydd ei swydd bosibl fel Maer yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23]**

**64. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**65. GOFYNION TG AR GYFER SIAMBR Y CYNGOR I HWYLUSO CHYFARFODYDD HYBRID**

Dywedodd Clerc y Dref bod peth o'r offer newydd wedi cyrraedd, ond bod eitemau ar ôl, ac unwaith y byddai popeth ar y safle, byddwn mewn sefyllfa i osod popeth a chael ymarfer.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr wybodaeth.*

**66. COELCERTH FLYNYDDOL Y RHYL**

Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi ei hysbysu y byddai'r goelcerth a'r arddangosfa dân gwyllt yn mynd rhagddynt fel arfer eleni, yn amodol ar unrhyw newidiadau yng nghanllawiau'r Llywodraeth Cymru cyn 5ed Tachwedd.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod ymgysylltiad y Cyngor Tref yn y digwyddiad wedi newid gan nad oedd bellach yn bartner, ond yn noddwr hyd at £5,000.

Roedd y trefniant newydd, serch hynny, eto i'w gytuno gan Glwb Lles y Gwasanaeth Tân.

Cafwyd trafodaeth ar haeddiannau tân gwyllt tawel neu fud yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) cymeradwyo'r cyfraniad o £5,000 i ddigwyddiad eleni.*

*(ii) bod Clerc y Dref yn trefnu trafodaeth ar arddangosfeydd yn y dyfodol a chefnogaeth y Cyngor Tref.*

**67. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbrthwyd gyda'r rhaglen) er:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Is-bwyllgor Asesu Risg | - | 27ain Medi 2021 | - | Rhifau Cofnod 22-27 |

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er cymeradwyaeth ac i gymeradwyol'r argymhellion ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 13eg Medi 2021 | - | Rhifau Cofnod 1-7 |
| Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 11eg Hydref 2021 | - | Rhifau Cofnod 8-13 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod y contract Digwyddiadau Bach a Chyhoeddusrwydd nesaf yn gontract dwy flynedd gyda'r opsiwn i'w ymestyn am flwyddyn arall.*

**68. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad**:**

…………………………